

Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Craffu 2020 i 2021

Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Craffu 2020-21

Cynnwys

Beth yw craffu?	3
Craffu ar waith	3
Sut mae craffu'n gweithio yn Sir Ddinbych?	4
Grŵp Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Craffu	5
Y broses ar gyfer penderfynu ar addasrwydd pwnc ar gyfer craffu	6
Gwaith craffu yn ystod 2020/21	7
Craffu a Blaenoriaethau Corfforaethol y Cyngor yn ystod 2020/21	8
Craffu a phandemig COVID-19	9
Galw penderfyniadau'r Cabinet i mewn	19
Canlyniadau cadarnhaol y broses graffu	20
Pwyllgor Craffu Cymunedau	21
Pwyllgor Craffu Partneriaethau	25
Pwyllgor Craffu Perfformiad	28
Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych	31
Grwpiau Tasg a Gorffen	33
Gwaith ychwanegol	34
Ceisiadau craffu gan drigolion	35
Sut gall trigolion gymryd rhan yn y broses Graffu?	36
Ffurflen Gais Craffu	38

Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Craffu 2020-21

Beth yw craffu?

Mae craffu'n rhan allweddol o strwythur gwleidyddol y Cyngor. Mae llawer o benderfyniadau pwysig y Cyngor yn cael eu gwneud gan y Cabinet, sef grŵp o wyth cynghorydd y mae'r Cyngor Sir wedi rhoi ei bwerau iddynt er mwyn dod i benderfyniadau ynghylch polisiau a gweithdrefnau ar ei ran.

Daw'r term 'scrutiny' yn Saesneg o'r gair Lladin 'scrutinium/scrutari' sy'n golygu 'i chwilio'. Yng nghyd-destun llywodraeth leol, rôl Craffu yw ymchwilio ac archwilio polisiau a phenderfyniadau i asesu a ellid eu gwella neu eu cryfhau i ddarparu gwell gwasanaethau i drigolion ac ymwelwyr â Sir Ddinbych. Cyfeirir at Craffu yn aml fel 'cyfaill beirniadol' y Cyngor, a'i bwrpas yw darparu beirniadaeth adeiladol er mwyn ceisio gwella gwasanaethau'n barhaus, sicrhau penderfyniadau gwell a gwireddu canlyniadau gwell.

Ni all Pwyllgorau Craffu wneud penderfyniadau, ond gallant ddylanwadu ar bolisiau, adolygu penderfyniadau a wneir gan y Cabinet a Swyddogion, gwneud argymhellion, ac archwilio ystod o bynciau sy'n effeithio ar drigolion, busnesau lleol ac ymwelwyr â'r sir.

Craffu ar waith

Dylai craffu weithio mewn ffordd ddiuedd bob amser. Ni ddylai gwleidyddiaeth ddylanwadu arno, dylai ei ffocws fod ar wella bywydau trigolion ac ar sicrhau gwell canlyniadau ar gyfer ardal y sir.

Yn ogystal â'u rôl weithgar i ddatblygu polisiau ac adolygu perfformiad, mae gan Bwyllgorau Craffu gyfrifoldeb i ddal y Cabinet ac eraill sy'n gwneud penderfyniadau i gyfrif am y penderfyniadau maent yn eu gwneud.

Os cred Pwyllgor Craffu y dylid edrych yn fanylach ar fater cyn rhoi penderfyniad ar waith, gall ofyn iddo gael ei adolygu dan y weithdrefn 'Galw i Mewn' a fydd yn galluogi Pwyllgorau Craffu i ffurfio cynigion amgen.

Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Craffu 2020-21

Sut mae craffu'n gweithio yn Sir Ddinbych?

Mae craffu'n gweithredu fel 'cyfaill beirniadol' i arweinyddiaeth y Cyngor, gan gymell gwelliant nid yn unig i wasanaethau a ddarperir gan y Cyngor ond i wasanaethau a ddarperir mewn partneriaeth â gwasanaethau cyhoeddus eraill yn yr ardal drwy alluogi i bryderon y cyhoedd gael eu clywed.

Cyflawnir gwaith craffu'r Cyngor gan dri Phwyllgor Craffu thematig, trawsbynciol, sy'n cwrdd oddeutu pob 7 wythnos ac maent yn cynnwys 11 aelod etholedig o bob plaid / grŵp gwleidyddol ar y Cyngor.

Y tri phwyllgor yn Sir Ddinbych yw:

- Pwyllgor Craffu Cymunedau
- Pwyllgor Craffu Partneriaethau
- Pwyllgor Craffu Perfformiad

Wrth astudio materion addysg, mae cynrychiolwyr a benodir gan yr Eglwys yng Nghymru a'r Eglwys Gatholig, ynghyd â chynrychiolwyr a etholwyd gan riant-lywodraethwyr, yn gwasanaethu ar y pwyllgorau hefyd. Mae gan y cynrychiolwyr hyn hawliau pleidleisio llawn wrth ddelio â materion yn ymwneud ag addysg. Ar hyn o bryd mae'r holl swyddi cynrychiolwyr rhiant-lywodraethwyr ar Craffu yn wag. Os ydych yn riant-lywodraethwr yn un o ysgolion cynradd, uwchradd neu arbennig y Cyngor a byddai gennych ddiddordeb mewn cynrychioli'ch sector ar Bwyllgor Craffu, cysylltwch â ni (ceir manylion yn yr adran 'Sut gall trigolion gymryd rhan yn y broses Graffu' tua diwedd yr adroddiad hwn).

Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Craffu 2020-21

Grŵp Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Craffu

Mae Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion y tri phwyllgor craffu yn gwasanaethu ar Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Pwyllgorau Craffu'r Cyngor ynghyd â Chadeirydd ac Is-Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a Chadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd. Mae'r Grŵp yn gweithredu fel grŵp cydlynol ar gyfer gwaith y pwyllgorau. Mae ceisiadau am eitemau i'w hystyried gan bwyllgor craffu, boed y rheini gan gynghorwyr sir, swyddogion y Cyngor, trigolion, busnesau neu'r cyhoedd, yn cael eu harchwilio gan y Grŵp hwn i bennu a ydynt yn bodloni'r meini prawf ar gyfer Craffu, neu a fyddent yn elwa o gael eu hystyried gan fforwm neu grŵp arall. Mae'r eglurhad ar y prawf PAPER ar y dudalen nesaf yn dangos y meini prawf a'r broses ar gyfer pennu a yw pwnc yn un addas ar gyfer craffu.

Yn ystod 2020/21 cafodd cyfanswm o 17 o geisiadau am eitemau i gael eu craffu eu hystyried gan y Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu. O'r 17 cais hwn cafodd:

- 10 eu cyflwyno gan gynghorwyr sir
- 5 gan swyddogion
- 1 gan drigolyn / aelod o'r cyhoedd (er bod nifer o'r ceisiadau a gafodd eu cyflwyno gan gynghorwyr sir yn ymateb i bryderon a godwyd gan eu hetholwyr) ac
- 1 o ganlyniad i Rybudd o Gynnig i Gyngor Sir

Mae'r Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu yn sicrhau bod rhaglenni gwaith y pwyllgorau craffu yn gytbwys ac nad yw'r pynciau'n cael eu dyblygu. Mae hefyd yn cefnogi a chryfhau swyddogaeth graffu'r Cyngor drwy nodi'r arfer orau a rhoi cymorth i weithredu unrhyw newidiadau angenrheidiol i arferion craffu.

Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Craffu 2020-21

Y broses ar gyfer penderfynu ar addasrwydd pwnc ar gyfer craffu

Cam un: ystyried y cais

Derbyn ffurflen gynnig neu gais ac ystyried yn ofalus y rhesymau dros y cais.

Cam dau: yw'r mater dan sylw yn cyd-fynd â'r prawf PAPER?

- Lles y cyhoedd: a yw'r mater yn destun pryder i drigolion?
- Y gallu i gael effaith – a all Craffu ddylanwadu ar bethau a'u newid?
- Perfformiad – a yw hwn yn faes neu wasanaeth sy'n tangyflawni?
- Maint: a yw hwn yn effeithio ar nifer fawr o drigolion neu ardal ddaearyddol eang?
- Dyblygu: a oes unrhyw un arall yn edrych ar y mater hwn?

Os nad yw, nid oes angen unrhyw weithredu pellach gan bwyllgor craffu a dylid cyfeirio'r cais i rywle arall neu ofyn am adroddiad er gwybodaeth.

Os yw:

Cam tri: asesu a chynllunio

- Penderfynu pa ganlyniadau a ddymunir
- Penderfynu ar gwmpas a graddau'r gwaith craffu sydd angen a'r dull mwyaf priodol i'w gyflawni (h.y. adroddiad pwyllgor, ymchwiliad grŵp tasg a gorffen, neu aelod cyswllt ac ati).
- Os dewisir y llwybr tasg a gorffen, pennu'r amserlen ar gyfer unrhyw ymchwiliad, pwy fydd yn gysylltiedig, gofynion ymchwil, cyngor arbenigol a'r tystion fydd eu hangen, trefniadau adrodd ac ati.

Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Craffu 2020-21

Gwaith craffu yn ystod 2020/21

Roedd 2020 yn flwyddyn a fydd yn aros yn y cof am amser maith. Yn sgil pandemig COVID-19, roedd 2020/21 yn flwyddyn wahanol iawn ar gyfer Craffu, fel ag yr oedd i weddill y byd. Nid oedd modd i unrhyw un ragweld sut yr oedd bywydau pob un ohonom am newid a sut y byddai arferion dyddiol yn dod i stop yn sydyn.

O ganol mis Mawrth i fis Medi 2020, gohiriwyd holl benderfyniadau'r Cyngor Sir, gyda dim ond penderfyniadau brys yn cael eu gwneud gan y Cabinet, er mwyn sicrhau bod yr holl adnoddau a oedd ar gael yn cael eu cyfeirio at ddarparu gwasanaethau rheng flaen hanfodol a chefnogi trigolion Sir Ddinbych yn ystod yr wythnosau a'r misoedd anodd o'u blaenau. Gyda nifer fawr o weithwyr y Cyngor yn gweithio gartref yn bennaf, roedd rhaid llunio ffyrdd newydd o weithio er mwyn sicrhau cyn lleied o amhariad â phosibl i ddarpariaeth gwasanaethau hanfodol i drigolion. Yn ogystal, gan fod yr holl gynghorwyr sir a swyddogion y Cyngor sy'n eu cefnogi yn gweithio gartref, roedd rhaid gwneud gwaith i gyflwyno, hwyluso ac ymglyfarwyddo â defnyddio cyfryngau fideo-gynadledda amrywiol er mwyn i brosesau democrataidd y Cyngor allu ailddechrau.

Roeddent yn ymwybodol o'r ffaith y byddai effaith y pandemig byd-eang yn newid ffocws y Pwyllgorau Craffu am weddill tymor presennol y Cyngor, ac felly ystyriwyd sut i ailddechrau gwaith y pwyllgorau ac ailadeiladu eu rhaglenni gwaith. Yn ystod yr haf 2020, bu i'r Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu ddechrau ar y gwaith hwn o ddifri a gwnaed penderfyniad y byddai cyfarfod cyntaf pob un o'r tri phwyllgor craffu o fis Medi ymlaen yn canolbwyntio ar gynlluniau adfer gwasanaethau'r Cyngor o ddelio gyda'r pandemig. Serch hynny, roedd y Grŵp yn awyddus i sicrhau nad oedd yr eitemau a oedd eisoes wedi'u cynnwys yn rhaglen gwaith i'r dyfodol y pwyllgorau cyn COVID-19 yn cael eu hanghofio neu eu colli am byth oherwydd y pandemig. Er mwyn sicrhau na fyddai hyn yn digwydd, rhoddwyd y pynciau i gyd ar 'restr gadw' tra'r oedd ymholiadau yn cael eu gwneud ynglŷn â phryd y byddai'n ymarferol i wasanaethau'r Cyngor ddarparu'r wybodaeth ofynnol i'r Pwyllgorau eu harchwilio wedi i adnoddau'r gwasanaethau ddechrau canolbwyntio ar fusnes o ddydd i ddydd eto yn hytrach nag ymateb i'r pandemig. Yn y pen draw, rhoddwyd tasg i bob pwyllgor craffu unigol aildrefnu'r eitemau 'hanesyddol' ar eu rhaglenni gwaith i'r dyfodol.

Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Craffu 2020-21

Craffu a Blaenoriaethau Corfforaethol y Cyngor yn ystod 2020/21

Er i'r pwyllgorau craffu flaenoriaethu archwilio gwaith adfer ar ôl COVID-19 yn ystod eu cyfarfodydd cyntaf, yn ystod y flwyddyn, parhaodd y pwyllgorau eu gwaith yn archwilio meysydd eraill i gefnogi darpariaeth blaenoriaethau corfforaethol y Cyngor a'i Gynllun Corfforaethol. Y Blaenoriaethau Corfforaethol yw:

Tai: sicrhau bod pawb yn cael eu cefnogi i fyw mewn cartrefi sy'n diwallu eu hanghenion

Clymu Cymunedau: sicrhau bod cymunedau wedi eu cysylltu, a bod ganddynt fynediad at nwyddau a gwasanaethau yn lleol, ar-lein a drwy gysylltiadau cludiant da

Cymunedau Cryf: sicrhau bod y Cyngor yn gweithio gyda phobl a chymunedau i feithrin annibyniaeth a chryfder

Yr Amgylchedd: sicrhau amgylchedd deniadol ac wedi ei warchod, gan gefnogi lles a ffyniant economaidd; a

Phobl Ifanc: creu sir lle bydd pobl ifanc yn dymuno byw a gweithio, a bydd ganddynt y sgiliau i wneud hynny

Nodwyd a chytunwyd ar Gynllun Corfforaethol y Cyngor a'i flaenoriaethau ar ddechrau tymor presennol y Cyngor yn 2017, gyda'r nod o gyflawni'r Cynllun cyfan pan mae ei dymor yn dod i ben yn 2022. Oherwydd graddfa ac effaith y pandemig ar bob agwedd o fywyd bob dydd, roedd Craffu'n credu ei bod hi'n bwysig i ailedrych ar y blaenoriaethau corfforaethol mor fuan â phosibl yn ystod ei archwiliad o'r gwaith adfer, er mwyn gwneud yn siŵr y byddent yn parhau i fod yn berthnasol yn Sir Ddinbych ar ôl y pandemig. Ar ôl ystyried effaith y pandemig ar y boblogaeth leol, effaith y cyfyngiadau a'r cyfnodau clo ar bobl ifanc a phobl hŷn, roedd Craffu'n sicr bod y blaenoriaethau a fabwysiadwyd gan y Cyngor yn 2017 yn fwy perthnasol nag erioed. Roedd y ffordd yr oedd pobl yn byw eu bywydau wedi newid yn fawr yn ystod y pandemig, mwy na thebyg am byth mewn llawer o achosion. Roedd pwysigrwydd tai diogel o ansawdd da, cymunedau cysylltiedig a chryf, amgylchedd deniadol a phobl ifanc a'u dyfodol wedi'i amlygu yn ystod y pandemig. Wrth symud ymlaen byddai sicrhau darpariaeth y blaenoriaethau hyn yn bwysicach nag erioed.

Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Craffu 2020-21

Craffu a phandemig COVID-19

Gyda sicrwydd bod y blaenoriaethau corfforaethol yn gyfredol ac yn parhau i fod yn berthnasol, fe aeth Craffu ati i archwilio sut yr oedd gwasanaethau rheng flaen wedi ymateb i'r pandemig. Roedd eisiau deall pa wersi a ddysgwyd o ddelio â'r pandemig, gwersi y gellid eu defnyddio wrth ymateb i ddigwyddiadau tebyg yn y dyfodol. Yn ogystal, roedd Craffu eisiau gwybod sut yr oedd gwasanaethau'n bwriadu symud o'r cam ymateb adweithiol i aildechrau darparu gwasanaethau 'arferol' pan oedd yn ddiogel i wneud hynny, neu os oeddent yn bwriadu addasu eu gwasanaethau i gyd-fynd ag anghenion y 'normal newydd', beth bynnag a fo.

Mae Craffu'n chwarae rhan allweddol wrth archwilio cyflawniadau addysgol disgyblion mewn arholiadau allanol ac asesiadau athrawon. Yn dilyn yr amhariad i'r flwyddyn academaidd a chanslo arholiadau allanol yn 2020, roedd Craffu'n ymwybodol iawn o sut yr oedd y pandemig wedi effeithio ar addysg a lles ehangach disgyblion y sir.

Canolbwyntiodd felly ar y cynlluniau adfer a roddwyd ar waith er mwyn ailagor ysgolion yn ddiogel ym mis Medi 2020 a rôl adrannau amrywiol y Cyngor a phartneriaid er mwyn i ysgolion allu ailagor ac i ddisgyblion allu cael eu cludo yno'n ddiogel ar gyfer dechrau'r flwyddyn academaidd newydd. Tipyn o gamp o ystyried fod gan y sir oddeutu 16,000 o ddisgyblion yn mynychu ei hysgolion. Canmolodd Craffu'r ymdrech tîm a oedd wedi sicrhau ailagor yr ysgolion yn ogystal ag ymdrechion cydunol pawb a oedd yn rhan o sicrhau darpariaeth y cwricwlwm addysgol a phrofiadau lles cysylltiedig i ddisgyblion a staff yn ystod y cyfnod clo cyntaf a'r cyfnodau clo dilynol.

Ar ddechrau 2021, archwiliodd Craffu sut yr oedd Gwasanaeth Addysg y Cyngor mewn partneriaeth â GwE, y gwasanaeth effeithlonrwydd a gwella ysgolion rhanbarthol, wedi esblygu ac addasu'r gefnogaeth ar gael i ysgolion yn ystod y pandemig a sut yr oedd ysgolion, yn eu tro, wedi addasu i'r ffyrdd newydd o weithio mewn ymateb i gyfyngiadau COVID-19. Roedd y Cyngor, ysgolion, staff a disgyblion wedi gorfod, oherwydd y cyfyngiadau, dod yn gyfarwydd â dysgu o bell yn ogystal ag elfennau o ddysgu cyfunol. Er bod anfanteision yn gysylltiedig â'r mathau hyn o ddysgu, roedd manteision y gellid eu mabwysiadu ar gyfer darparu rhai agweddau o addysg yn y dyfodol.

Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Craffu 2020-21

Er i COVID-19 roi pwysau difrifol ar wasanaethau rheng flaen megis addysg a gofal cymdeithasol, bu i'r cyfyngiadau yn gysylltiedig â'r pandemig hefyd effeithio ar ddarpariaeth nifer o wasanaethau eraill y Cyngor. Ymysg y gwasanaethau hyn oedd y Gwasanaeth Priffyrdd a Pharth Cyhoeddus, amharwyd ar ei amserlen barhaus o waith cynnal a chadw priffyrdd am oddeutu 7 mis, ar yr union adeg o'r flwyddyn y byddai'r rhan fwyaf o'r gwaith cynnal a chadw wedi cael ei wneud. O ganlyniad, collwyd y cylch cynnal a chadw priffyrdd blynyddol, a oedd yn golygu bod y ffyrdd a oedd angen eu gwella cyn y pandemig wedi dirywio ymhellach ac y byddai'n costio llawer mwy i'w hatgyweirio i safon dderbyniol. Er bod gwaith cynnal a chadw priffyrdd wedi aildechrau fel mater o frys er mwyn cyflawni cymaint â phosibl cyn y gaeaf, roedd risg y byddai'r cyfyngiadau yn gysylltiedig â chyfnod clo arall a'r olion traul arferol a achosir gan dywydd gaeafol a graeanu, er enghraifft, yn gwaethygu'r problemau. Sicrhawyd Craffu bod cynlluniau wrth gefn mewn lle i reoli'r risgiau hyn. Serch hynny, byddai'r nifer cyfyngedig o gontractwyr arwynebu priffyrdd, ynghyd â'r galw cenedlaethol am eu gwasanaethau o fewn cyfnod cyfyngedig o amser cyn y gaeaf, yn heriol, yn enwedig o ystyried maint cymharol fach rhwydwaith priffyrdd Sir Ddinbych o gymharu â siroedd mwy.

Daeth materion Tai a Digartrefedd yn flaenoriaeth yn ystod y pandemig ac felly roedd Craffu'n awyddus i sicrhau bod trigolion mwyaf diamddiffyn y sir, ynghyd â'i thenantiaid tai, yn cael cefnogaeth ddigonol o ansawdd uchel yn ystod cyfnodau hir o gyfyngiadau. Er i waith adnewyddu nad oedd yn waith brys ar dai'r Cyngor gael ei atal am gyfnod yn ystod y cyfnod clo cyntaf, dechreuodd y gwaith i leihau'r ôl-groniad a achoswyd gan hyn ym mis Awst 2020, ac archwiliodd Craffu'r cynlluniau adfer er mwyn rhoi'r gwaith adnewyddu yn ôl ar y trywydd cywir. Archwiliodd hefyd y gefnogaeth ragweithiol a roddodd y Cyngor i'w denantiaid yn ystod y pandemig, gyda dros 3,000 o alwadau i denantiaid diamddiffyn yn ystod y cyfnod clo cyntaf. Yn ogystal, roedd platfformau cyfryngau cymdeithasol y Cyngor wedi cael eu defnyddio i dynnu sylw tenantiaid at y gefnogaeth a oedd ar gael iddynt os oeddent ei hangen. Roedd ôl-ddyledion rhent wedi codi, ond drwy gyfathrebu clir gyda thenantiaid a gweithio'n agos gyda Chyngor ar Bopeth Sir Ddinbych a Llywodraeth Cymru, roedd y Cyngor wedi gallu cefnogi'r tenantiaid hynny a oedd yn profi anawsterau ariannol.

Ers cyflwyno Credyd Cynhwysol, mae Craffu wedi archwilio effaith cyflwyno'r budd-dal ar drigolion a'i effaith ganlyniadol ar y gefnogaeth a ddarperir gan y Cyngor, megis Cynllun

Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Craffu 2020-21

Lleihau Treth y Cyngor, Budd-Dal Tai, Prydau Ysgol am Ddim, yn ogystal â'r incwm y mae'n ei gael o daliadau Treth y Cyngor. Fel rhan o'i waith yn monitro Credyd Cynhwysol yn Sir Ddinbych, nid oedd yn syndod i weld bod nifer y trigolion a oedd yn hawlio Credyd Cynhwysol wedi cynyddu yn ystod y flwyddyn, roedd y cynnydd hwn mewn nifer oherwydd y pandemig yn bennaf. Er y bu cynnydd mewn hawliadau am Gredyd Cynhwysol yn ystod y cyfnod, nid oedd yr hawliadau hyn am y lwfans Credyd Cynhwysol llawn bob tro, roedd rhai am fwy o gefnogaeth lefel isel, wrth i drigolion drochi i mewn ac allan o hawliadau Credyd Cynhwysol oherwydd ffyrlo neu effaith llacio'r cyfyngiadau ar eu gallu i ymgymryd â mwy o waith am dâl. Serch hynny, cafodd Craffu sicrwydd o ddeall bod trigolion yn derbyn cyngor cadarn a chymorth ariannol effeithiol ac roedd y berthynas waith agos a fabwysiadwyd rhwng y Cyngor, Cyngor ar Bopeth Sir Ddinbych a Civica (sy'n gweinyddu budd-daliadau amrywiol ar ran y Cyngor) dros nifer o flynyddoedd wedi bod yn amhrisiadwy o ran helpu i gefnogi trigolion yn ystod cyfnodau heriol ac anrhagweladwy.

Er hynny roedd gan Craffu bryderon bod y Grant Gweinyddu Budd-dal Tai, a oedd yn cael ei dalu i'r Cyngor am weinyddu'r Budd-dal Tai yn cael ei leihau er gwaethaf y ffaith bod y llwyth gwaith yn aros yn gyson. Roedd pwysau ychwanegol yn cael ei wynebu oherwydd bod y niferoedd a oedd yn hawlio drwy'r Cynllun Lleihau Treth y Cyngor wedi cynyddu o 2.8% a gwelwyd cynnydd o 10.95% yn nifer y ceisiadau Prydau Ysgol am Ddim a wnaed rhwng mis Mawrth a mis Tachwedd 2020.

Gan eu bod yn ymwybodol iawn o risg uwch y feirws i unigolion a oedd yn ddigartref, neu mewn perygl o fod yn ddigartref, diwygiodd Llywodraeth Cymru'r rheoliadau'n ymwneud â digartrefedd mewn ymgais i wneud yn siŵr nad oedd yr unigolion mwyaf diamddiffyn yn ein cymunedau mewn mwy o berygl o ddal a lledaenu'r feirws oherwydd eu hamodau byw. Er mwyn cydymffurfio â'r rheoliadau newydd, roedd yn rhaid i'r Cyngor newid ei bolisi dyrannu ar gyfer tai cymdeithasol yn rhannol, er mwyn ymateb i'r gofynion Covid-19 ar lety dros dro / brys i aelwydydd digartref. Yn ychwanegol, pwysleisiodd LIC i awdurdodau lleol y byddai dyletswydd lawn i ailgartrefu'n barhaol unrhyw aelwydydd y rhoddwyd llety brys iddynt yn ystod cyfnod clo'r pandemig. Rhoddodd y newidiadau hyn i'r rheoliadau i fynd i'r afael â phroblemau penodol a achoswyd gan y pandemig, bwysau ychwanegol ar wasanaethau digartrefedd y Cyngor. Ar yr un pryd a welodd y Gwasanaeth nifer yr aelwydydd a oedd yn cyflwyno eu hunain mewn perygl o fod yn ddigartref yn dyblu bron,

Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Craffu 2020-21

roedd disgwyl iddo lunio cynllun wedi'i anelu at ddod â digartrefedd i ben a chyflwyno model ailgartrefu cyflym. Roedd hyn yn ei dro yn gofyn am ddatblygiad model newydd er mwyn darparu gweledigaeth LIC ar gyfer gwasanaethau cymorth digartrefedd yn y dyfodol, model yn seiliedig ar fabwysiadu dull corfforaethol gyda nifer o wasanaethau'n cydweithio i ddarparu pecyn di-dor o wasanaethau ymyrraeth gynnar i unigolion a theuluoedd a oedd yn profi problemau'n ymwneud â thai. Archwiliodd Craffu'r cynigion hyn a chefnogi'r cynllun cyflawni arfaethedig. Roedd yn falch o wybod bod cyllid cyfalaf wedi ei sicrhau at ddibenion lleihau defnydd y Cyngor o lety gwely a brecwast i deuluoedd a bod cyllid refeniw wedi'i ganiatáu i gefnogi datblygiad y model gwasanaethau newydd yn ymwneud â thai. Er mwyn gwneud yn siŵr bod y model newydd yn addas i'r diben ac y bydd yn cyflawni ei ganlyniadau bwriedig ar gyfer trigolion diamddiffyn, bydd Craffu'n monitro cynnydd y gwasanaeth o ran darparu gwasanaethau cymorth sy'n ymwneud â thai yn ystod 2021/22.

Roedd y Coronafeirws yn argyfwng iechyd cyhoeddus, ac mae'n parhau i fod yn argyfwng heddiw, ond mae ei effaith yn llawer mwy eang gyda phob aelod o gymdeithas wedi'i effeithio i ryw raddau. Gyda phawb wedi cael cyngor i aros adref a siopau dianghenraid a manau manwerthu, ynghyd â lleoliadau lletygarwch ac adloniant, ar gau am gyfnodau maith, roedd effaith y pandemig ar yr economi, busnesau a bywoliaeth unigolion yn debygol o fod yn ddinistriol. Roedd felly'n hollbwysig i Craffu archwilio effaith cau'r manau hyn ar ganol trefi'r sir, ynghyd â'r cynlluniau a ddatblygwyd ar gyfer ailagor a'r gwaith a oedd wedi cael ei wneud hyd yma er mwyn cefnogi adferiad busnesau ar draws Sir Ddinbych. Rhagwelwyd y byddai busnesau'n ei chael hi'n anodd adfer yn y tymor canolig a'r tymor hir, gyda'r posibilrwydd o rai methu goroesi.

Archwiliodd Craffu'r pedair agwedd benodol o waith adfer cymorth i fusnesau'r Cyngor. Roedd y rhain yn ymwneud â'r themâu canlynol:

- Canol Trefi
- Cyswllt Busnes
- Twristiaeth
- Caffael

Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Craffu 2020-21

Roedd gan bob un o'r themâu hyn gynllun adfer ei hun, a oedd yn cyd-fynd ag amcanion y gweddill ac yn bwydo i mewn i'r Cynllun Adfer Cymorth i Fusnesau trosfwaol. Roedd y cynlluniau adfer hefyd yn anelu i gyfrannu at y gwaith adferiad economaidd rhanbarthol a wnaed mewn partneriaeth â Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU. Roedd yr holl waith uchod yn ychwanegol i'r gwaith dyddiol a wnaed gan Wasanaeth Datblygu Economaidd a Busnes y Cyngor. Gwnaed pob ymdrech i dynnu sylw at y gwasanaethau a'r cymorth a oedd ar gael i fusnesau drwy ddatganiadau i'r wasg a negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol. Roedd y rhain yn ddulliau effeithiol o gyfathrebu'r wybodaeth oherwydd bod y mathau o gyllid a chefnogaeth oedd ar gael i fusnesau yn newid gyda phob cyhoeddiad gan Lywodraeth Cymru.

Un agwedd benodol o'r gwaith adfer cymorth i fusnesau a dderbyniodd gryn dipyn o sylw gan drigolion a busnesau, sylw ffafriol gan rai ond anffafriol gan y mwyafrif, oedd y 'Cynlluniau Teithio Llesol COVID-19' amrywiol a oedd wedi'u cynllunio a/neu ar waith ar draws y sir. Roedd y rhain yn gynlluniau a oedd wedi'u hariannu gan grant Cludiant Cynaliadwy COVID-19 Llywodraeth Cymru. Roeddent yn cael eu hystyried yn gynlluniau peilot ar gyfer cynlluniau teithio llesol posibl ar draws y sir yn y dyfodol, eu prif nodau oedd lleihau tagfeydd traffig yng nghanol y dref, gwella ansawdd aer ac annog cerddwyr a beicwyr i ganol trefi er mwyn cynyddu nifer yr ymwelwyr a chefnogi busnesau lleol.

Mewn ymateb i bryderon a godwyd gan drigolion a rhai busnesau mewn perthynas â sut y lluniwyd a chytunwyd y cynlluniau hyn, archwiliodd Craffu eu pwrpas, y sail resymegol y tu ôl i'r cynlluniau amrywiol mewn trefi ar draws y sir, ynghyd ag effeithiolrwydd eu gweithrediad cychwynol. Oherwydd bod datblygiad y cynlluniau hyn wedi'i gymell gan y cynnig o gyllid gan Lywodraeth Cymru i'w dwyn i ffrwyth, estynnodd Craffu wahoddiad i Ddirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth Llywodraeth Cymru, y Gweinidog a oedd yn gyfrifol am ddyrannu'r cyllid, i fynychu'r cyfarfod i drafod y cais cyllido a'r broses ddyrannu. Yn anffodus, nid oedd y Dirprwy Weinidog yn gallu mynychu'r cyfarfod ar gyfer y drafodaeth ond darparodd ddatganiad tystiolaeth ar y Cynllun. Roedd y datganiad hwn yn cynnwys gwybodaeth ar y cymorth ariannol a ddyrannwyd i Sir Ddinbych i ariannu pob un o'r cynlluniau cymeradwy ac yn rhoi enghreifftiau o'r mathau gwahanol o gynlluniau a ariannwyd ar draws Gymru.

Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Craffu 2020-21

Daeth yn amlwg yn ystod archwiliad Craffu o'r Cynlluniau Teithio Llesol COVID-19 bod y cysyniad y tu ôl iddynt yn un da. Fodd bynnag, roedd yr amserlen dynn a roddwyd gan Lywodraeth Cymru i awdurdodau lleol lunio cynlluniau a chyflwyno eu ceisiadau am gyllid, yn golygu nad oedd y swyddogion a oedd yn gysylltiedig â llunio'r cynlluniau wedi cael digon o amser i ymgynghori gyda chynghorwyr lleol, busnesau a thrigolion ar y cynlluniau arfaethedig. O ganlyniad, oherwydd gwrthwynebiad lleol, cafodd rhai cynlluniau cychwynol eu canslo ac roedd rhaid diwygio eraill a arweiniodd at oedi o ran awdurdodi'r contractau ar gyfer eu datblygu. Roedd hyn yn golygu nad oedd y cynlluniau mewn lle i elwa o'r cynnydd yn nifer yr ymwelwyr yn ystod misoedd yr haf. Bu i Craffu gydnabod yr anawsterau a wynebwyd wrth ddatblygu a gweithredu'r cynlluniau oherwydd yr amserlen dynn a osodwyd gan y Llywodraeth i wneud cais am gyllid ar eu cyfer. Rhwystrodd hyn lwyddiant cam gweithredu'r cynlluniau. Roedd felly yn bwysig bod y gwersi a ddysgwyd o'r broses gyda'r cynlluniau hyn yn cael eu hystyried wrth baratoi ar gyfer cynlluniau tebyg yn y dyfodol, gan fod perchnogion busnes yn pryderu am sut olwg fyddai ar y dyfodol iddynt. Gan fod y cynlluniau a roddwyd ar waith yn weithredol am gyfnod prawf o 18 mis, mae Craffu, ynghyd â Grwpiau Ardal yr Aelodau Lleol, wedi cytuno i fonitro effaith y cynlluniau ar y trefi y maent yn weithredol ynddynt.

Yn ôl ym mis Mawrth 2020 ar ddechrau'r pandemig, mewn ymgais i geisio lleihau cyswllt cymdeithasol a lleihau'r risg o ledaenu'r feirws, bu i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ofyn i bob gweithiwr a oedd yn gallu gweithio gartref i wneud hynny. Parhaodd hyn drwy gydol 2020 ac mae'r gweithwyr hynny sy'n gallu cyflawni eu gwaith yr un mor effeithiol gartref yn parhau i weithio gartref hyd heddiw.

Roedd yn rhaid i'r Cyngor weithredu'n gyflyn i ymestyn y gallu o weithio gartref er mwyn galluogi'r mwyafrif o staff i weithio gartref mewn cyfnod byr o amser. Ar ddechrau'r cyfnod clo cyntaf, dim ond gwaith hanfodol a gwaith rheng flaen brys oedd yn cael ei gyflawni, gyda gwaith nad oedd yn frys, cyfarfodydd y Cyngor a phenderfyniadau polisi nad oeddent yn rhai brys yn cael eu gohirio nes i'r trefniadau gweithio gartref a'r platfformau cyfarfod o bell gael eu sefydlu a'u profi'n drwyadl. Fodd bynnag, gyda nifer y staff a oedd yn gweithio o bell yn cynyddu o oddeutu 200 y diwrnod cyn y pandemig i 1,600 y diwrnod yn ystod y pandemig, profwyd cadernid y 'Ffyrdd Newydd o Weithio'. Wrth i amser fynd heibio ac i

Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Craffu 2020-21

fusnes 'arferol' ailddechrau, er y gwnaed o bell lle bo'n bosibl, profwyd capasiti systemau cyfathrebu a TG y Cyngor.

Archwiliodd Craffu effeithiolrwydd y ffyrdd newydd o weithio. Roedd manteision y ffyrdd newydd o weithio yn dod yn amlwg i reolwyr, staff a chynghorwyr. Er i'r pandemig orfodi'r Cyngor i fabwysiadu'r dulliau newydd hyn o weithio yn llawer cynt na fwriadwyd yn wreiddiol, roedd eu manteision eisoes yn cael eu teimlo. Er enghraifft, roedd ôl troed carbon y Cyngor wedi lleihau'n sylweddol oherwydd bod llai o bobl yn teithio i'r gwaith, ynghyd â gostyngiad yn y milltiroedd a deithiwyd oherwydd busnes a phresenoldeb mewn cyfarfodydd. Roedd hyn yn ei dro wedi gostwng tagfeydd traffig lleol a lefelau llygredd, ac roedd gweithio o gartref wedi gwella'r cydbwysedd gwaith a bywyd i nifer o bobl, staff ac aelodau etholedig fel ei gilydd. Oherwydd hyn, cynigiwyd y dylid parhau â'r dull hwn i raddau pan fydd y gofynion cadw pellter cymdeithasol wedi dod i ben. Derbyniwyd yn gyffredinol, yn y dyfodol, dylai'r mwyafrif o gyfarfodydd rheolaidd gael eu cynnal dros y we a byddai gweithio o gartref am o leiaf rhan o'r wythnos yn ffordd arferol o weithio, math o fodel hybrid lle fyddai staff yn mynd i adeiladau'r Cyngor neu ganolfannau i weithio ar rai diwrnodau neu ar gyfer digwyddiadau meithrin tîm a rhwydweithio, ond yn gwneud y mwyafrif o'u gwaith o gartref. Roedd yn debygol y byddai'n rhaid ail-ffurfweddu adeiladu'r Cyngor er mwyn cefnogi'r model hwn. Er i Craffu gefnogi'r dull hwn wrth symud ymlaen, pwysleisiodd ddyletswydd y Cyngor i ddiogelu lles ei staff a'i aelodau etholedig, gan gydnabod na fyddai pob aelod o staff yn croesawu'r unigrwydd o weithio o gartref yn barhaol. Mynegwyd pryderon ynghylch yr effaith economaidd posibl o weithio gartref ar ganol y trefi lle'r oedd swyddfeydd y Cyngor wedi eu lleoli, gan y byddai nifer yr ymwelwyr yn gostwng yn sylweddol ac fe allai gael effaith ddifrifol ar hyfywedd rhai sectorau penodol y sector manwerthu a lletygarwch, a oedd eisoes wedi dioddef yn fawr oherwydd y pandemig.

Agweddau eraill o'r gwaith adfer a archwiliwyd gan y Pwyllgor Craffu oedd y mesurau a luniwyd i ailagor adeiladau'r Cyngor wedi i gyfyngiadau COVID-19 gael eu llacio ac roedd y Cyngor yn cael agor ei adeiladau i'r cyhoedd unwaith eto. Archwiliodd Craffu'r gwaith a wnaed gan dîm amlddisgyblaeth i baratoi swyddfeydd y Cyngor ar gyfer ailagor. Roedd y gwaith hwn yn cynnwys pob agwedd o drefniadau gwaith megis mesurau cadw pellter cymdeithasol yn y gweithle, mesurau lechyd, Diogelwch a Lles, ynghyd â chynnal a chadw

Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Craffu 2020-21

eiddo a chyfarpar yn ystod y cyfnod clo. Ymgynghorwyd ag Undebau Llafur a oedd yn cynrychioli staff o ran y mesurau a gymerwyd i baratoi adeiladau ar gyfer ailagor. Er nad oedd unrhyw adeilad wedi cael ei ddadgomisynu o ganlyniad i newidiadau i batrymau gwaith yn ystod y cyfnod clo, roedd rhai wedi cael eu cau, roedd eraill ar agor yn rhannol am lai o oriau ac eraill ar agor yn llawn. Roedd eu statws 'agor' yn ddibynnol ar y gwasanaethau a oedd yn cael eu darparu yn yr adeiladau hynny. Oherwydd y mesurau cyfnod clo estynedig sydd ar waith, mae rhai adeiladau'n dal ar gau neu ar agor am lai o oriau, mae Craffu wedi penderfynu ail-edrych ar y gwaith a wnaed o ran adfer adeiladau'r Cyngor pan fydd y cyfyngiadau yn cael eu llacio.

Wrth i'r Cyngor barhau â'i waith adfer o'i ymateb cychwynnol i COVID-19, roedd yn bwysig i Craffu ganolbwyntio ar effeithiolrwydd y camau a gymerwyd i ailgychwyn darparu gwasanaethau dianghenraid a ataliwyd yn ystod y cyfnod clo cyntaf, ac archwilio'r gwersi a ddysgwyd o'r pandemig er mwyn cynllunio ar gyfer y dyfodol. Daeth yn amlwg yn fuan iawn y byddai bywyd yn Sir Ddinbych ar ôl y pandemig yn wahanol i bawb. Agwedd arall a ddaeth i'r amlwg yn ystod y pandemig oedd y rôl bwysig yr oedd cymunedau yn ei chwarae wrth gefnogi eu trigolion mwy diamddiffyn pan oeddent angen cymorth e.e. drwy drefnu i gasglu presgripsiynau, siopa neu gadw mewn cysylltiad â nhw i holi am eu lles. Roedd y Cyngor, fel rhan o'i Gynllun Corfforaethol 2017-22, eisoes wedi ymrwymo i weithio gyda phobl a chymunedau i feithrin annibyniaeth a gwytnwch yn rhan o'i flaenoriaeth gorfforaethol 'Cymunedau Cryf'. Un o'r pethau cadarnhaol a ddeilliodd o'r pandemig oedd yr ysbryd cymunedol a welwyd ar draws y sir. Mae'n debyg bod yr ysbryd hwnnw wedi bod yno dan y wyneb cyn yr argyfwng ond fe ddaeth yn llawer mwy amlwg i drigolion ac i'r awdurdod lleol yn ystod y cyfnod clo cyntaf a'r cyfnod gwarchod, gyda grwpiau amrywiol yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol, yn dosbarthu taflenni ac ati i hysbysu trigolion o'r ffaith bod cymorth ar gael os oeddent ei angen. Rhoddodd hyn gyfle i'r Cyngor gysylltu â'r grwpiau hyn er mwyn cydweithio gyda'r bwriad o gryfhau cymunedau a'u grymuso i fod yn fwy cadarn nag y maent yn barod.

Felly, archwiliodd Craffu gynigion y Cyngor ar gyfer datblygu a gwella Cryfder Cymunedol ar ôl y pandemig. Mae'r cynigion hyn yn cynnwys gweithio'n agosach gyda'r Sector Gwirfoddol a grwpiau cymunedol ac wrth wneud hynny, defnyddio'r gwersi a ddysgwyd yn dilyn COVID-19 fel sail ar gyfer datblygu a gweithredu dulliau newydd o ran darparu

Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Craffu 2020-21

gwasanaethau yn y dyfodol, er mwyn magu gwytnwch ac addasu i amgylchedd lle mae COVID a'r risgiau cysylltiedig yn parhau i fod yn her. Yn ystod y cyfnod clo cyntaf, mabwysiadodd y Cyngor ymagwedd ragweithiol drwy adleoli staff, a oedd yn ddi-waith dros dro oherwydd i rai gwasanaethau gael eu hatal, i ffonio trigolion a oedd ar restr warchod Llywodraeth Cymru, i holi am eu lles a gofyn os oedd arnynt angen unrhyw gymorth. Derbyniodd y galwadau lles hyn ymateb da gan drigolion. Roedd y Cyngor yn awyddus i ddatblygu'r ymagwedd wrth symud ymlaen ac roedd yn edrych ar ddatblygu achos busnes i gefnogi'r fenter. Agwedd arall yr oedd y Cyngor yn awyddus i'w datblygu oedd y gefnogaeth ar gyfer y trigolion hynny a oedd yn ddiamddiffyn yn economaidd, drwy weithio gyda sefydliadau eraill mae'r Cyngor eisiau gwneud y mwyaf o'r cyllid sydd ar gael er mwyn helpu i gefnogi pobl yn y sir mewn i gyflogaeth a mynd i'r afael â thlodi bwyd. Yn olaf, mae'r Cyngor eisiau adolygu'r gwaith a ddarparwyd mewn a thrwy ysgolion drwy gydol y cyfnod clo i sicrhau ei fod yn cefnogi dysgwyr diamddiffyn yn effeithiol er mwyn iddynt allu cyflawni eu potensial llawn. Roedd Craffu'r gefnogol o'r cynigion hyn i gyd ac yn eu hystyried yn gyfleoedd ardderchog i ddefnyddio ac ysgogi perthnasau gwaith a ddatblygwyd yn ystod cyfnod o argyfwng a'u defnyddio i gryfhau'r ymdeimlad o ysbryd cymunedol, cyfrifoldeb a grym, a fyddai'n cefnogi'r gwaith angenrheidiol i gyflawni gweledigaeth y Cyngor mewn perthynas â'i flaenoriaeth gorfforaethol, Cymunedau Cryf.

Er nad oeddent yn gallu cynnal cyfarfodydd am chwe mis ac yna'n gorfod canolbwyntio eu gwaith ar y gwaith adfer ar ôl COVID-19, mae tri phwyllgor craffu'r Cyngor wedi gallu trefnu pob un o'r pynciau perthnasol a oedd i'w trafod cyn y pandemig ar eu rhaglen gwaith i'r dyfodol o'r hydref 2020. Mae rhai o'r pynciau hyn eisoes wedi cael eu hystyried yn ystod gaeaf 2020 a gwanwyn 2021, bydd y gweddill yn cael eu hystyried yn ystod gweddill tymor y Cyngor hyd at fis Mai 2022. Ymhlith yr eitemau a ystyriwyd yn ystod 2020/21 mae materion yn ymwneud â datblygu polisïau, cynigion ar gyfer newidiadau i ddarpariaeth gwasanaeth a'r cynnydd a wnaed gyda newidiadau a oedd rhaid eu gwneud yng ngoleuni cyfyngiadau COVID-19 a'r oedi a achoswyd gan y pandemig. Yn ogystal, mae Craffu wedi parhau ei waith yn monitro perfformiad y Cyngor a sefydliadau partner wrth ddarparu ei wasanaethau a swyddogaethau statudol i'r trigolion, yn ogystal ag asesu effaith gymunedol penderfyniadau a chynigion y Cyngor ar drigolion Sir Ddinbych. Ceir

Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Craffu 2020-21

mwy o wybodaeth ar y pynciau hyn o dan yr adrannau yn yr adroddiad ar y pwyllgorau unigol.

Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Craffu 2020-21

Galw penderfyniadau'r Cabinet i mewn

Gweithredwyd Gweithdrefn Galw i Mewn y Cyngor ddwywaith yn ystod 2020/21 wedi i ddau benderfyniad a wnaethpwyd gan y Cabinet ar 22 Medi 2020 gael eu cyflwyno gerbron y Pwyllgor Craffu er mwyn eu hadolygu. Roedd y penderfyniadau hyn mewn perthynas â:

- Gwaredu tir wrth ymyl Ysgol Pendref, Dinbych; a
- Phrosiectau Band B Ysgolion yr 21^{ain} Garrif

Er mwyn cydymffurfio â'r terfynau amser a nodir yn Rheolau Gweithdrefn Galw i Mewn y Cyngor, bu i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau gynnal Cyfarfod Arbennig ar 5 Hydref 2020 i ystyried y sail ar gyfer y galwadau i mewn ac adolygu'r dystiolaeth a oedd yn sail i benderfyniadau'r Cabinet.

Ar ôl ystyried y dystiolaeth mewn perthynas â'r penderfyniad i waredu tir wrth ymyl Ysgol Pendref, gofynnodd Craffu i'r Cabinet ailystyried ei benderfyniad gwreiddiol yn sgil y weledigaeth gan LIC ar gyfer tai fforddiadwy a chymdeithasol yn y dyfodol a nodwyd yn y fframwaith datblygu cenedlaethol newydd drafft 'Cymru'r Dyfodol: y cynllun cenedlaethol 2040'. Hefyd, gofynnodd i'r Cabinet ystyried dewisiadau i wneud tir a oedd yn cael ei waredu yn fwy deniadol i landlordiaid cymdeithasol a datblygwyr llai drwy ei rannu'n lleiniau / parseli llai, a sicrhau nad oedd y Cyngor yn creu gorgyflenwad o dai anfforddiadwy mawr yn Sir Ddinbych na fyddai'n diwallu anghenion lleol. Ar ôl ystyried argymhellion Craffu ar y mater hwn, ail-gadarnhaodd y Cabinet ei benderfyniad gwreiddiol. Serch hynny, bu i nifer o aelodau'r Cabinet gydnabod y pryderon a godwyd gan Craffu mewn perthynas ag argaeledd tai fforddiadwy yn Sir Ddinbych a'r gorgyflenwad o dai anfforddiadwy yn yr ardal.

Wedi ystyried y wybodaeth a ddarparwyd o ran penderfyniad y Cabinet mewn perthynas â'r Prosiectau Band B Ysgolion yr 21^{ain} Garrif, a oedd yn cynnwys manylion o ran y cefndir i'r cyllid a'r broses flaenoriaethu a ddilynwyd i benderfynu pa ysgolion sy'n deilwng o fanteisio ar fuddsoddiad, tynnwyd y cais i adolygu penderfyniad y Cabinet yn ôl gan y cyngorwyr a roddodd y broses galw i mewn ar waith yn y lle cyntaf. Tynnwyd y cais yn ôl

Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Craffu 2020-21

ar y ddealltwriaeth y byddai gwybodaeth bellach ar y buddsoddiad a wnaed hyd yma yn ysgolion y sir ac amlinelliad clir o gynlluniau buddsoddi yn y dyfodol, yn amodol ar argaeledd cyllid llywodraeth ganolog a lleol, yn cael eu rhannu gyda chynghorwyr cyn gynted â phosibl.

Canlyniadau cadarnhaol y broses graffu

Un o brif amcanion y broses graffu yw i ychwanegu gwerth ac i geisio sicrhau bod y penderfyniadau a wneir gan y Cyngor yn cael effaith gadarnhaol ar fywydau'r bobl sy'n byw, gweithio ac ymweld â Sir Ddinbych. Mae disgwyliad i Craffu ddangos tystiolaeth o'r buddion y mae wedi'i ychwanegu at y broses o wneud penderfyniadau a sut mae'r buddion hynny'n amlygu eu hunain mewn canlyniadau gwell i fusnesau a thrigolion y sir.

Er fod holl argymhellion Craffu wedi'u hanelu at gyfrannu tuag at benderfyniadau gwell a gwelliant mewn gwasanaethau i drigolion, nid yw bob amser yn hawdd i ddangos y gwelliannau neu'r buddion hynny mewn ffordd bendant. Mae sylw eisoes wedi'i roi mewn adroddiadau blaenorol i'r tân dinistriol ar Fynydd Llantysilio ym mis Gorffennaf 2018 a'r ymchwiliad dilynol a gynhaliwyd gan Craffu i achos y tân, sut y cafodd y digwyddiad tân a'r rhostir eu rheoli, ynghyd ag effaith hirdymor y tân ar yr ardal. Un o'r argymhellion o'r ymchwiliad hwnnw oedd y dylid creu swydd Swyddog Rheoli Rhostir er mwyn cynorthwyo â meithrin perthynas waith effeithiol rhwng yr holl sefydliadau ac unigolion a oedd yn gysylltiedig â phori a rheoli'r mynydd. Braf iawn yw cael adrodd, yn dilyn gwaith Craffu ar y mater hwn, bod Cyngor Sir Ddinbych a Chyfoeth Naturiol Cymru wedi cytuno i gyd-ariannu'r swydd hon ac fe benodwyd swyddog ar ddechrau 2021. Yn ogystal â chyflawni'r amcanion sydd wedi'u cynnwys yn Ymchwiliad Craffu, bydd gan y swyddog hwn ran hanfodol i'w chwarae wrth gefnogi'r Strategaeth ar Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol a fabwysiadwyd yn ddiweddar gan y Cyngor. Dyma enghraifft glir o'r hyn a ellir ei gyflawni drwy graffu gofalus ac effeithiol.

Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Craffu 2020-21

Pwyllgor Craffu Cymunedau



Cyng. Huw Williams (**Cadeirydd**)



Cyng. Graham Timms (**Is-Gadeirydd**)

Rôl y Pwyllgor hwn yw archwilio materion sy'n effeithio'n uniongyrchol ar gymunedau lleol a bywydau dyddiol y trigolion. Gall y rhain fod yn faterion o fewn rheolaeth uniongyrchol y Cyngor neu agweddau o fywyd dyddiol y gall y Cyngor ddylanwadu arnynt.

Yn dilyn y ffocws cychwynol o'i waith ar gynlluniau adfer ar ôl COVID-19, bu i'r Pwyllgor gynnal Cyfarfod Arbennig i adolygu dau benderfyniad gan y Cabinet a oedd yn destun archwiliad manwl o dan Reolau Gweithdrefn Galw i Mewn y Cyngor. Roedd y penderfyniadau hyn yn ymwneud â Band B Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif a gwerthu tir ger Ysgol Pendref, Dinbych. Mae'r manylion ar ganlyniad y cyfarfod galw i mewn hwn wedi'u cynnwys mewn man arall yn yr adroddiad hwn.

Yn ystod y flwyddyn, bu i'r Pwyllgor archwilio'r effaith ar addysg yn ardal Rhuthun o'r adolygiad o addysg gynradd a ddechreuodd sawl blwyddyn yn ôl a daeth i ben yn 2018, wedi i bob ysgol a oedd yn destun adolygiad symud i'w hysgolion newydd neu wedi i'r gwaith adeiladau ar eu safleoedd ddod i ben. Wrth asesu effaith yr adolygiad, roedd y Pwyllgor eisiau sicrhau bod yr holl fuddion a ragwelwyd a'r deilliannau addysgol wedi'u cyflawni ar ddiwedd y cyfnod sefydlu i ddisgyblion a staff.

Bu i'r Pwyllgor ystyried a chefnogi cyflwyno Polisi Buddion Cymunedol ar gyfer Sir Ddinbych. Nod y polisi hwn yw i'r Cyngor wireddu buddion ariannol o gontractau neu

Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Craffu 2020-21

brosiectau a ddyfarnir o fewn y sir er mantais cymunedau lleol, ac i'r cymunedau hynny wneud y mwyaf o unrhyw fuddion ariannol a dderbynnir drwy ffrydiau cyllido allanol nad ydynt ar gael i'r awdurdod lleol e.e. cronfeydd ffermydd gwynt cymunedol ac ati.

Ymysg y cynigion a'r cynlluniau a oedd wedi'u lleoli mewn cymunedau penodol ond roedd disgwyl iddynt sicrhau buddion ledled y Sir a archwiliwyd gan y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn oedd y rheini a oedd yn ymwneud â Charchar Rhuthun ac Adfywio'r Rhyl. Mae'r cynigion sy'n ymwneud â Charchar Rhuthun wedi'u hanelu at ehangu'r cynnig treftadaeth yng Ngharchar Rhuthun os a phan fydd cais y Gwasanaeth Archifau i Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol am gyllid i adeiladu adeilad archifau pwrpasol yn yr Wyddgrug ar gyfer Gwasanaeth Archifau Sir Ddinbych a Sir y Fflint, yn llwyddiannus. Mae gwaith i adfywio'r Rhyl a lleihau'r lefelau o amddifadedd yn y dref yn mynd rhagddo ers peth amser bellach. Nawr bod y sylfeini wedi'u gosod mae'r gwaith yn ennill momentwm ac mae'r ffocws nawr ar adfywio canol y dref. Archwiliodd y Pwyllgor y weledigaeth ar gyfer canol y dref a'r trefniadau llywodraethu sydd mewn lle i fonitro a chefnogi cyflawniad y weledigaeth honno er budd y dref, yr ardaloedd cyfagos a'r sir gyfan. Bydd nawr yn parhau i fonitro'r gwaith hwn ar sail flynyddol.

Agwedd arall o adfywio economaidd y mae'r Pwyllgor wedi'i harchwilio yn ystod y flwyddyn yw Polisi Tariffau Meysydd Parcio presennol y Cyngor a Chynlluniau Parcio Trigolion. Gofynnwyd i Craffu benderfynu a oedd y rhain yn ddigon hyblyg i ddiwallu holl ardaloedd y sir. Ar hyn o bryd, mae'r tariffau meysydd parcio'r un fath ar draws holl feysydd parcio'r Cyngor, gyda thri o dariffau gwahanol ar waith - meysydd parcio arhosiad byr, meysydd parcio arhosiad hir a meysydd parcio traethau. Mae rhai trefi a busnesau o'r farn, oherwydd y cynigion gwahanol sydd ar gael ym mhob tref a bod mwy o dwristiaid a chwsmeriaid yn pasio heibio rhai ardaloedd yn fwy nag eraill, y byddai o fudd i amrywio tariffau mewn rhai trefi. Gyda'r bwriad o roi'r cysyniad ar brawf, cefnogodd y Pwyllgor gynnig i gynnal prosiect peilot yn Llangollen a fydd yn amrywio tariffau mewn meysydd parcio penodol o fewn y dref, ar y ddealltwriaeth na ddylai hyn achosi colled net mewn incwm o'r holl feysydd parcio yng nghanol y dref. Bydd y canfyddiadau o'r prosiect peilot yma yn cael eu hadrodd yn ôl i'r Pwyllgor maes o law.

Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Craffu 2020-21

Roedd gwella sut mae'r Cyngor yn delio â gwastraff y cartref a chynlluniau i wella ei gyfraddau ailgylchu ymhellach, ar raglen waith y Pwyllgor unwaith eto. Edrychodd ar y cynlluniau cyflawni ar gyfer cyflwyno gwasanaeth ailgylchu a gwastraff y cartref newydd ar draws y sir, yn cynnwys ei gynigion ar gyfer cyfathrebu ac addysgu trigolion ynglŷn â chyflwyniad y Gwasanaeth newydd a sut y byddai o fudd iddynt ac yn effeithio arnynt.

O bryd i'w gilydd, mae gwerysilloedd diawdurdod gan aelodau o gymunedau sipsiwn a theithwyr yn achosi tensiynau a gofid i drigolion a busnesau lleol. Gyda'r bwriad o ddatblygu dull cydlynol ar gyfer delio â gwerysilloedd o'r fath – a diogelu lles trigolion Sir Ddinbych ac aelodau'r gymuned sipsiwn a theithwyr – bu i'r Pwyllgor ystyried a chefnogi gweithdrefnau a luniwyd i wella'r ffordd y mae'r Cyngor yn ymateb i werysilloedd answyddogol. Rhan bwysig o'r gweithdrefnau newydd hyn yw sefydlu Swyddog Cyswllt Sipsiwn a Theithwyr. Bydd yr unigolyn hwn yn gweithredu fel un pwynt cyswllt mewn perthynas â gwerysilloedd diawdurdod a bydd yn gweithio gyda holl wasanaethau'r Cyngor, trigolion a busnesau lleol, yn ogystal â'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr mewn ymgais i sicrhau canlyniad cadarnhaol i bawb a diogelu lles pawb. Gyda'r Cyngor nawr wrthi'n datblygu ei Gynllun Datblygu Lleol newydd, cefnogodd y Pwyllgor gynnig i sefydlu Grŵp Tasg a Gorffen Craffu i fonitro datblygiad Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr newydd, yn unol â Methodoleg Llywodraeth Cymru ac i gynorthwyo â datblygiad cynllun ymgysylltu â budd-ddeiliaid ar gyfer y prosiect. Mae'r Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr yn un o ofynion y Cynllun Datblygu Lleol. Gan fod Craffu eisoes wedi pwysleisio'r angen i ymgysylltu â budd-ddeiliaid yn fuan wrth ddatblygu Asesiad o Anghenion, cytunodd y Pwyllgor y byddai'n fuddiol i gynnwys Craffu ar y cyfle cynharaf posib yn ystod datblygiad yr Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr newydd. Bydd y Grŵp Tasg a Gorffen hwn yn adrodd ei gasgliadau i'r Pwyllgor cyn diwedd tymor presennol y Cyngor.

Yn ystod blynyddoedd diweddar mae cymunedau amrywiol yn Sir Ddinbych wedi dioddef colled a difrod difrifol oherwydd llifogydd. Gwelwyd yr achos diweddaraf o lifogydd ym mis Ionawr 2021, wedi i ran o dref Rhuthun gael ei difrodi gan ddŵr ac i Bont Llannerch, rhwng Trefnant a Thremeirchion gael ei golchi ymaith gan lif yr Afon Clwyd. Ar ddiwedd 2020, bu i'r Pwyllgor gwrdd â chynrychiolwyr o Gyfoeth Naturiol Cymru, Dŵr Cymru a swyddogion y Cyngor i drafod dull pob sefydliad o ran rheoli perygl llifogydd. Yn y cyfarfod hwnnw, cytunodd yr holl sefydliadau y byddai'n fuddiol i sefydlu Grŵp Tasg a Gorffen i archwilio

Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Craffu 2020-21

Rheoli Perygl Llifogydd a Pherchnogaeth Tir ar Lannau Afon yn fanwl. Bydd y Grŵp hwn yn cynnwys cynghorwyr sir, cynrychiolwyr o Gyfoeth Naturiol Cymru, Dŵr Cymru, cynrychiolwyr o'r undebau ffermio a thirfeddianwyr, yn ogystal â swyddogion o Gyngor Sir Ddinbych. Byddant yn edrych ar ffyrdd o wella cyfathrebu a'r berthynas waith rhwng awdurdodau rheoli perygl llifogydd a thirfeddianwyr / tenantiaid, mewn ymgais i geisio gwella eu dealltwriaeth o gyfrifoldebau'r ochr arall mewn perthynas â rheoli perygl llifogydd. Byddant yn ceisio meithrin lefel o ymddiriedaeth rhwng bob parti er mwyn helpu a chefnogi ei gilydd i ganfod datrysiadau ymarferol i leihau'r perygl o lifogydd a sicrhau llif dirwysr o ddŵr drwy'r tir y maent yn gyfrifol amdano. Bydd y Grŵp Tasg a Gorffen hwn yn adrodd ei ganfyddiadau i'r Pwyllgor pan fydd yn gorffen ei waith.

Bydd y ddolen ganlynol yn mynd â chi at [wybodaeth am y Pwyllgor Craffu Cymunedau, ei raglenni ac adroddiadau ar wefan y Cyngor.](#)

Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Craffu 2020-21

Pwyllgor Craffu Partneriaethau



Cyng. Jeanette Chamberlain-Jones (**Cadeirydd**)

Cyng. Emrys Wynne (**Is-Gadeirydd**)

Cylch gorchwyl y Pwyllgor hwn yw archwilio effeithiolrwydd y gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor naill ai mewn cydweithrediad, neu mewn partneriaeth, â sefydliadau eraill y sector cyhoeddus i fodloni anghenion trigolion. Fel arfer mae'r Pwyllgor yn cwrdd yn rheolaidd gyda chynrychiolwyr y Bwrdd Iechyd i archwilio ei ddarpariaeth o wasanaethau i drigolion Sir Ddinbych ac unrhyw fodolau neu gyfleusterau darparu gwasanaeth newydd arfaethedig yn y sir. Nid yw'n syndod nad oedd modd cynnal cyfarfodydd ar faterion o'r fath yn ystod 2020/21 oherwydd angen y Bwrdd Iechyd i flaenoriaethu ei waith ar ymateb i'r pandemig.

Serch hynny, yn dilyn ffocws cychwynnol ar archwilio cynlluniau adfer ar ôl COVID-19, parhaodd y Pwyllgor i graffu ar effeithiolrwydd gweithio mewn partneriaeth wrth ddarparu gwasanaethau ar gyfer trigolion Sir Ddinbych, yn ogystal â chynigion a gyflwynwyd ar gyfer trefniadau gweithio mewn partneriaeth yn y dyfodol a'r buddion a ragwelwyd i drigolion a'r Cyngor o ddilyn y trefniadau hynny. Fel rhan o'r gwaith hwn, archwiliodd y Pwyllgor ddogfennau allweddol a'r trefniadau llywodraethu a oedd yn gysylltiedig â'r Cytundeb Bargen Terfynol ar gyfer Bargen Dwf Gogledd Cymru rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru a'r awdurdodau lleol a gynrychiolir ar Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (BUEGC). O hyn ymlaen, fel pwyllgor dynodedig y Cyngor ar gyfer craffu'n ffurfiol ar waith BUEGC, bydd y Pwyllgor Craffu Partneriaethau yn derbyn adroddiadau diweddar rheolaidd ar gynnydd y Bwrdd o ran cyflawni ei weledigaeth,

Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Craffu 2020-21

sicrhau buddsoddiad a thyfu economi Gogledd Cymru. Bydd y Pwyllgor hefyd yn gwahodd cynrychiolwyr y Bwrdd i gyfarfod o dro i dro i drafod ei raglen waith.

Bu i'r Pwyllgor archwilio a chymeradwyo cynigion i weithio gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC) i gaffael contract ar y cyd i reoli Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref yn y ddwy sir. Os bydd y cynnig hwn yn dwyn ffrwyth, un o'r manteision i drigolion y ddwy sir fydd y gallu i ddefnyddio eu canolfan ailgylchu gwastraff y cartref agosaf, ni waeth pa sir y mae'r ganolfan ynddi.

Yn unol â'i ddyletswydd fel Pwyllgor Craffu Trosedd ac Anhrefn y Cyngor, archwiliodd y Pwyllgor berfformiad y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol wrth gyflawni ei blaenoriaethau yn ystod 2019/20 a'r blaenoriaethau yr oedd wedi'u gosod ar gyfer 2020/2.

Canolbwyntiodd hefyd ar yr ystadegau'n ymwneud â materion diogelwch cymunedol yn ystod y cyfnod clo cyntaf a'r dulliau a ddefnyddiwyd wrth ddelio ag achosion o fygwth, ymddygiad gwrthgymdeithasol ac achosion o dorri cyfyngiadau COVID-19.

Ar ddechrau 2021, archwiliodd y Pwyllgor Bolisiâu Cynnal a Chadw Ymylon Ffyrdd a Gwrychoedd a Gwasgaru Plaladdwyr y Cyngor unwaith eto, i sicrhau eu bod yn parhau i gefnogi cyflawniad y Cyngor o'i flaenoriaeth o ran yr amgylchedd a gwneud yn siŵr bod ffyrdd y sir yn ddiogel i yrwyr a cherddwyr.

Yn ystod y flwyddyn, parhaodd y Pwyllgor i ganolbwyntio ar sicrhau fod trigolion mwyaf diamddiffyn y sir wedi'u diogelu rhag niwed, boed hynny yn ystod argyfwng COVID-19 neu yn eu bywydau dyddiol. Wrth gyflawni'r rôl hon, bu i'r Pwyllgor fonitro'r ystadegau'n manylu ar berfformiad y Cyngor o ran Diogelu Oedolion yn ystod 2019/20. Archwiliodd Ddatganiad Sefyllfa'r Farchnad y Cyngor, yn amlinellu gweledigaeth yr Awdurdod o ran y mathau o wasanaethau gofal cymdeithasol y mae'n rhagweld gorfod eu comisiynu yn y dyfodol er mwyn darparu cymorth a gofal priodol a diogel i drigolion y sir.

Mae cynlluniau eisoes mewn lle i'r Pwyllgor ailddechrau ei gyfarfodydd rheolaidd gyda swyddogion Bwrdd Iechyd yn ystod 2021/22 ble bydd yn trafod buddsoddiad arfaethedig mewn cyfleusterau gwasanaeth iechyd yn Sir Ddinbych, ac os oes rhyngwynebau priodol yn bod rhwng y Cyngor a'r Bwrdd Iechyd i hwyluso darpariaeth gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol integredig.

Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Craffu 2020-21

Bydd y ddolen ganlynol yn mynd â chi at [wybodaeth am y Pwyllgor Craffu Partneriaethau, ei raglenni ac adroddiadau ar wefan y Cyngor.](#)

Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Craffu 2020-21

Pwyllgor Craffu Perfformiad



Cyng. Arwel Roberts (**Cadeirydd**)



Cyng. Hugh Irving (**Is-Gadeirydd**)

Penodwyd y Cynghorydd Arwel Roberts yn Gadeirydd ar y Pwyllgor hwn ar ddechrau blwyddyn y Cyngor 2020/21 yn dilyn marwolaeth drist y Cynghorydd Huw Jones, a oedd wedi bod yn Gadeirydd ar y Pwyllgor hwn ers dechrau tymor y Cyngor presennol yn 2017.

Mae gan y Pwyllgor Craffu Perfformiad ran bwysig i'w chwarae mewn gwneud yn siŵr fod y Cyngor yn cyflwyno gwasanaethau o safon i drigolion ac wrth gefnogi'r Cyngor i wireddu ei uchelgais o gyflawni ei Gynllun Corfforaethol erbyn 2022. Bydd ei fonitro rheolaidd o gynnydd y Cyngor o ran cyflawni ei flaenoriaethau corfforaethol yn sicrhau y bydd dyhead y Cyngor o wireddu ei Gynllun Corfforaethol yn cael ei gyflawni. Fel rhan o'r gwaith hwn, bu iddo adolygu, oherwydd yr aflonyddwch a achoswyd i fusnes dyddiol y Cyngor a bywydau trigolion yn gyffredinol yn sgil y pandemig, os oedd angen ailddiffinio'r blaenoriaethau corfforaethol neu newid y trefniadau monitro ar gyfer eu cyflawni. Nawr bod ymateb i'r rheolau newidiol a'r cyfyngiadau yn gysylltiedig â COVID-19 yn rhan o fusnes dyddiol arferol y Cyngor, roedd y Pwyllgor o'r farn bod y blaenoriaethau yn parhau i fod yn berthnasol ac roedd y trefniadau llywodraethu i fonitro eu cyflawniad yn berthnasol hefyd. Yn dilyn yr adolygiad hwn, parhaodd y Pwyllgor ei waith yn monitro cyflawniad y Cynllun Corfforaethol.

Yn ogystal, mae'r Pwyllgor yn parhau i fonitro bod gwasanaethau yn cydymffurfio â pholisi cwynion corfforaethol y Cyngor, sy'n ceisio sicrhau fod unrhyw gwynion yn cael eu trin yn briodol ac ar amser. Mae'r polisi hwn hefyd yn rhoi cyfle i drigolion awgrymu sut y gall gwasanaethau wella eu harferion darparu gwasanaethau a rhoi cyfle iddynt ganmol

Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Craffu 2020-21

unigolion neu wasanaethau. Mae hyn yn ei dro yn helpu'r Cyngor i ddarparu gwasanaethau o'r radd flaenaf i drigolion.

Bob blwyddyn mae'r Pwyllgor yn archwilio perfformiad Gwasanaeth Llyfrgell y Cyngor yn erbyn Safonau Gwasanaeth Llyfrgell Cymru gyfan. Wrth wneud hyn eleni, ystyriodd sut yr oedd y Gwasanaeth wedi addasu'r ffordd yr oedd yn darparu ei wasanaethau yn ystod y pandemig. Bu i'r Pwyllgor longyfarch staff y Gwasanaeth ar y rôl hanfodol bwysig yr oeddent wedi'i chwarae wrth wneud galwadau ffôn i gadw mewn cysylltiad â thrigolion a oedd yn gwarchod eu hunain, ochr yn ochr â'r gwaith yr oeddent wedi bod yn ei wneud i gefnogi cwsmeriaid y llyfrgell i gael mynediad at wasanaethau ar-lein, sefydlu gwasanaeth clicio a chasglu a darparu gwasanaeth danfon i'r cartref ar gyfer yr unigolion hynny nad oeddent yn gallu casglu eu llyfrau o'r llyfrgell. Drwy gydol y pandemig, roedd y gwasanaeth wedi parhau i gynnig y gwasanaethau iechyd a lles amrywiol, megis amrywiaeth y Cynlluniau Llyfrau Darllen yn Well ar Bresgripsiwn i oedolion a phant.

Parhaodd y pwyllgor â'i adolygiad o Gofrestr Risgiau Gorfforaethol y Cyngor a gynhelir ddwywaith y flwyddyn, mae'n cynnwys asesu a yw'r awdurdod wedi nodi'r prif risgiau a allai amharu ar ei gyflawniad o'i fusnes o ddydd i ddydd ac wrth wneud hynny a yw wedi llunio mesurau priodol i leihau effaith bosibl y risgiau hynny ar drigolion a busnes y Cyngor.

Ystyriodd hefyd ganlyniadau gwerthusiad allanol o'i Wasanaeth Gwastraff ac Ailgylchu Masnachol, ynghyd â'r cynnig a gyflwynwyd o ran cyfeiriad y Gwasanaeth yn y dyfodol er mwyn ei alinio â model newydd ar gyfer ymdrin â gwastraff y cartref - a fyddai'n cefnogi ymdrechion i gyflawni'r gofyniad i gynyddu cyfraddau ailgylchu'r Cyngor a lleihau'r swm o wastraffu gweddilliol y mae'r rhaid iddo drefnu i'w waredu.

Lleihau'r swm o blastig a ddefnyddir gan y Cyngor oedd ffocws y Grŵp Tasg a Gorffen a sefydlwyd gan y Pwyllgor yn ystod blwyddyn y Cyngor 2019/20 ac roedd y Pwyllgor Craffu Perfformiad yn cefnogi cynnig y Grŵp i leihau'r swm o blastig a oedd yn cael ei ddefnyddio yn swyddfeydd y Cyngor. Ar ddechrau 2020, bu i'r Cyngor Sir gymeradwyo'r cynigion hynny a chymeradwyo cais y Pwyllgor i ganiatáu i'r Grŵp Tasg a Gorffen barhau ei waith am 12 mis arall i archwilio ffyrdd i leihau defnyddio plastig mewn dau faes penodol, arlwyio ysgolion ac arferion caffael y Cyngor. Yn anffodus, fel yr oedd y Grŵp am ddechrau'r darn

Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Craffu 2020-21

o waith yma, amharodd COVID19 ar bopeth. At ddibenion iechyd a diogelwch dros gyfnod y pandemig, mae plastig yn angenrheidiol a bydd yn parhau felly, tan y bydd y bygythiad o'r pandemig yn lleihau. O ganlyniad, nid oedd y grŵp yn gallu symud ymlaen â'i waith yn ddigonol o fewn y terfynau amser a roddwyd iddo. Felly, cytunodd y Pwyllgor gyda chais y Grŵp y dylid dod â'i waith i ben ac yn y dyfodol, dylai'r gwaith o leihau plastig fod yn rhan o'r Strategaeth ar Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol ehangach, gyda'r cynnydd a wneir o ran lleihau'r swm o blastig a ddefnyddir ar draws y Cyngor yn cael ei fonitro fel rhan o fonitro perfformiad yn gysylltiedig â'r Strategaeth honno. Mae'r Gweithgor Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol wedi cytuno i gynnwys hyn fel rhan o'i waith ac mae'r Cyngor Sir wedi cymeradwyo hyn.

Mewn ymateb i bryderon a godwyd gan rieni, trafododd y Pwyllgor y ddarpariaeth o Gludiant i Ddysgwyr i Addysg Uwchradd Cyfrwng Cymraeg yn y sir a'r diffiniad o Ysgolion Categori 1 (cyfrwng Cymraeg). Ar ddiwedd y drafodaeth hon, cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at Weinidogion LIC i ofyn iddynt sicrhau bod casgliadau'r adolygiadau sydd ar waith, i reoliadau cludiant ysgol a chategoreiddio ysgolion yn ôl darpariaeth cyfrwng Cymraeg, yn plethu i gefnogi'r ddarpariaeth ehangaf bosibl o gyfleoedd addysgol i ddisgyblion yng Nghymru.

O ran gweddill tymor presennol y Cyngor, mae gwaith y Pwyllgor Craffu Perfformiad yn debygol o gynnwys cymysgedd o waith monitro perfformiad a datblygu polisi arferol a gwaith adfer ar ôl COVID-19 yn ôl y galw.

Bydd y ddolen ganlynol yn mynd â chi at [wybodaeth am y Pwyllgor Craffu Perfformiad, ei raglenni ac adroddiadau ar wefan y Cyngor.](#)

Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Craffu 2020-21

Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych

Sefydlwyd y Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a Chyngor Sir Ddinbych at ddiben cyflawni eu dyletswydd statudol o graffu ar y Cyd-Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych. Mae'n cynnwys 16 aelod, 8 aelod o bob Cyngor yn adlewyrchu cydbwysedd gwleidyddol yr awdurdodau. Fel y soniwyd yn gynharach, arweiniodd sefyllfa COVID-19 yn 2020/21 at oedi'r holl benderfyniadau nad oeddent yn rhai brys am ran helaeth o'r flwyddyn, ac yna pan ddechreuodd busnes o ddydd i ddydd eto, roedd yr holl sefydliadau'n canolbwyntio ar eu hadferiad ar ôl ymateb i'r pandemig. Er bod y Cydbwyllgor wedi gobeithio ailddechrau ei raglen waith yn yr hydref 2020, gan fod llawer o'r asiantaethau ar y Bwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus wedi ymrwymo i'r ymateb i'r pandemig, nid oedd yn gallu gwneud hynny tan Ionawr 2021. Yn y cyfarfod hwnnw, ystyriodd y Cyd-Bwyllgor Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer 2019/20, ei derfynau amser statudol ar gyfer 2021/22 ac Adolygiad Archwilio Cymru o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru. Bydd y Cyd-bwyllgor yn cynnal ei gyfarfod nesaf ym mis Mehefin 2021.



Cyng. Brian Cossey (**Cadeirydd**)



Cyng. Graham Timms (**Is-Gadeirydd**)

Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Craffu 2020-21

Aelodaeth

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

- Cyng. Geoffrey David Corry
- Cyng. Brian Cossey (Cadeirydd)
- Cyng. Chris Hughes
- Cyng. Ifor Lloyd
- Cyng. Elizabeth Roberts
- Cyng. Harry Saville
- Cyng. Nigel Smith:
- Cyng. Joan Vaughan

Cyngor Sir Ddinbych

- Cyng. Jeanette Chamberlain-Jones
- Cyng. Rachel Flynn
- Cyng. Hugh Irving
- Cyng. Melvyn Mile
- Cyng. Arwel Roberts
- Cyng. Peter Scott
- Cyng. Graham Timms (Is-Gadeirydd)
- Cyng. David G Williams

Bydd y ddolen ganlynol yn mynd â chi at [wybodaeth am y Cydbwyllgor, ei raglenni a'i adroddiadau ar wefan y Cyngor.](#)

Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Craffu 2020-21

Grwpiau Tasg a Gorffen

Yn ystod 2020/21 parhaodd y Pwyllgorau Craffu i ddefnyddio'r Grwpiau Tasg a Gorffen i gyflawni'r gwaith manwl o ddatblygu polisiau ar eu rhan, ond, fel popeth arall, cafodd y pandemig effaith ar gynnydd y gwaith hwn. Un o'r grwpiau tasg a gorffen a effeithiwyd yn ddifrifol gan y pandemig oedd y grŵp sefydledig a oedd yn archwilio modelau cyflenwi ar gyfer **Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol Oedolion** yn y dyfodol. Gan fod gwasanaethau cyfleoedd gwaith a gofal dydd nad yw'n breswyl wedi cael eu hatal o fis Mawrth 2020 a staff Gofal Cymdeithasol wedi'u hadleoli i ddarparu gwasanaethau i breswylwyr diamddiffyn mewn ffordd ddiogel, mae gwaith y Grŵp Tasg a Gorffen wedi'i atal dros dro nes i gyfyngiadau COVID gael eu llacio ac y caniateir i wasanaethau gofal dydd a chyfleoedd gwaith mewn lleoliadau grŵp ailagor.

Fel yr adroddwyd yn yr Adroddiad Blynyddol y llynedd, mae pryderon am y difrod a achosir i'r amgylchedd gan ein **Defnydd o Blastig**, yn arbennig deunydd plastig untro a'r dulliau a ddefnyddir i'w waredu, wedi ennill momentwm dros y byd yn y blynyddoedd diwethaf. Felly, ar ddechrau 2019, sefydlodd y Pwyllgor Craffu Grŵp Tasg a Gorffen er mwyn ceisio canfod datrysiadau i ddefnydd y Cyngor o'r math hwn o blastig. Arweiniodd hyn at y Grŵp yn gwneud argymhellion ynghylch lleihau'r defnydd o blastig yn swyddfeydd y Cyngor, drwy roi'r gorau i ddefnyddio cwpanau untro, troellwyr ac ati a pheidio â phrynu waledi plastig i ddal dogfennau yn y dyfodol. Cefnogwyd yr argymhellion hyn gan y Pwyllgor Craffu. Wrth gymeradwyo'r argymhellion, cytunodd y Cyngor Sir hefyd y gallai'r Grŵp Tasg a Gorffen barhau â'i waith am ddeuddeg mis arall gan i archwilio sut i leihau'r defnydd o blastig untro yng ngwasanaethau arlwy ysgolion y Cyngor ac wrth i'r Cyngor gaffael nwyddau. Fel roedd y gwaith hwn ar fin dechrau, daeth argyfwng COVID-19. Wrth i'r wlad ddechrau ar y cyfnod clo, caewyd yr ysgolion a phan agorwyd yr ysgolion fisoedd yn ddiweddarach, roedd rhaid i'r Gwasanaeth Arlwy Ysgolion ddefnyddio plastig untro oherwydd rhesymau iechyd a diogelwch ac i leihau'r risg o ledaenu'r feirws, a bydd rhaid parhau i'w ddefnyddio am beth amser. O ganlyniad, nid oedd y Grŵp Tasg a Gorffen yn gallu dechrau ar ail gam ei waith, ac oherwydd ei bod yn debygol y bydd y cyfyngiadau mewn grym am beth amser, teimlwyd na fyddai'r Grŵp yn gallu cwblhau'r cam hwn o'i waith o fewn y terfynau amser. Cytunodd y Pwyllgor Craffu Perfformiad a'r Cyngor Sir i gais y Grŵp Tasg a Gorffen i gwblhau ei waith ac i'r uchelgais o leihau defnydd y Cyngor o

Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Craffu 2020-21

blastig untro mewn perthynas ag arlwyyo ysgolion a chaffael gael ei drosglwyddo i'r Gweithgor Hinsawdd ac Argyfwng Ecolegol i'w ddatblygu a'i fonitro fel rhan o'r Strategaeth ar Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol ehangach.

Agwedd arall sy'n gysylltiedig â newid hinsawdd yw amlder a difrifoldeb llifogydd ar draws Sir Ddinbych. Mae'r Pwyllgor Craffu Cymunedau'n awyddus i archwilio a fyddai gwella perthnasau gwaith a chryfhau sianeli cyfathrebu rhwng yr holl asiantaethau perygl llifogydd, tiffeddianwyr, a thenantiaid tiroedd sydd â phrif afonydd neu gysiau dŵr yn llifo drwyddynt yn lleihau'r difrod a achosir gan ddŵr llifogydd yn ystod cyfnodau o dywydd garw. Bu i'r Grŵp gynnal ei gyfarfod cyntaf ym mis Ebrill 2021 a bydd yn adrodd i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau ynghylch ei gynnydd, canfyddiadau ac argymhellion maes o law.

Mae'r Pwyllgor Craffu Cymunedau wedi sefydlu grŵp tasg a gorffen arall yn ddiweddar. Y tro hwn, i fonitro datblygiad Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr newydd ac i gynorthwyo â datblygu cynllun ymgysylltu â budd-ddeiliad ar gyfer y prosiect. Bydd y Grŵp yn dechrau ar ei waith o fewn yr wythnosau nesaf a bydd yn adrodd i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau ynghylch ei ganfyddiadau cyn diwedd cyfnod presennol y Cyngor.

Gwaith ychwanegol

Yn unol â'r arfer dros y blynyddoedd diwethaf, mae aelodau'r Pwyllgor Craffu wedi parhau â'u swyddogaethau craffu y tu hwnt i faes ffurfiol y cyfarfodydd pwyllgor. Maent wedi cynrychioli eu pwyllgor ar grwpiau amrywiol megis Grwpiau Her Gwasanaeth a Grŵp Buddsoddi Strategol y Cyngor ac ati. O dan yr eitem busnes sefydlog ym mhob un o gyfarfodydd y Pwyllgorau Craffu, mae cynrychiolwyr yn adrodd yn ôl i'w pwyllgorau ar y trafodaethau, yr argymhellion a'r penderfyniadau a wneir yn y cyfarfodydd y maent yn eu mynychu.

Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Craffu 2020-21

Ceisiadau craffu gan drigolion

Ers nifer o flynyddoedd mae pwyllgorau craffu Sir Ddinbych wedi gweithredu dull sy'n galluogi trigolion i dynnu sylw Craffu at faterion sy'n peri pryder. Caiff hyn ei hwyluso drwy lenwi ffurflen gais am Graffu, sydd ar gael ar wefan y Cyngor neu gan y Cydlynedd Craffu. Caiff ffurflenni wedi'u cwblhau eu cyflwyno i'r Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu, yn yr un ffordd â cheisiadau a dderbynnir gan gynghorwyr a swyddogion, i'w hystyried ac i benderfynu a yw'r pwnc yn addas i'w archwilio gan un o'r Pwyllgorau Craffu, neu a fyddai'n fwy buddiol pe bai'r mater yn cael ei ystyried gan fforwm arall.

Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Craffu 2020-21

Sut gall trigolion gymryd rhan yn y broses Craffu?

A fydddech chi'n hoffi i'r pwyllgorau craffu edrych ar fater penodol?

Gallwch godi mater i'w ystyried gan un o bwyllgorau craffu Cyngor Sir Ddinbych drwy lenwi'r Ffurflen Gais Craffu (trosodd) neu drwy lawrlwytho'r ffurflen o wefan y Cyngor a'i chyflwyno dros e-bost. Mae Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion y tri phwyllgor craffu yn cyfarfod yn achlysurol i benderfynu sut i ddyrannu gwaith y pwyllgorau craffu a byddant yn ystyried a ddylai unrhyw fater gael ei ystyried yn fanwl gan un o'r pwyllgorau, neu a ddylid gweithredu mewn ffordd arall. Gall hyn amrywio o gyfeirio mater i'r gwasanaeth sy'n gyfrifol, i graffu'n llawn ar y mater gan un o'r pwyllgorau craffu, neu hyd yn oed sefydlu 'grŵp tasg a gorffen' arbenigol i archwilio ac adrodd ar fater penodol.

A fydddech chi'n hoffi mynychu cyfarfod pwyllgor craffu?

Mae cyfarfodydd pwyllgorau craffu Cyngor Sir Ddinbych ar agor i'r cyhoedd fel arfer, ac mae trigolion Sir Ddinbych a'r cyhoedd yn cael eu hannog i fynychu neu wyllo'r gweddarllediad ar wefan y Cyngor. Mae rhestr o gyfarfodydd pwyllgorau craffu'r dyfodol a'r materion i'w trafod ar gael ar y dudalen 'Craffu' ar wefan y Cyngor.

Os hoffech chi gymryd rhan yn y drafodaeth ar fater penodol bydd angen i chi ofyn am ganiatâd Cadeirydd y pwyllgor (manylion pellach dros y dudalen).

Yn achlysurol bydd rhai eitemau sy'n cael eu trafod gan bwyllgor yn cynnwys gwybodaeth gyfrinachol na ellir ei thrafod yn y fforwm cyhoeddus arferol. Bydd unrhyw eitemau o'r fath (y cyfeirir atynt fel 'Rhan Dau (II)') wedi'u nodi'n glir pan fydd papurau'r cyfarfod yn cael eu cyhoeddi, a bydd Cadeirydd y pwyllgor sy'n trafod eitem 'Rhan II' yn ei gwneud hi'n glir y dylai'r cyfarfod barhau heb bresenoldeb y wasg a'r cyhoedd er mwyn osgoi datgelu gwybodaeth gyfrinachol.

Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Craffu 2020-21

A fydddech chi'n hoffi siarad mewn pwyllgor ar fater sy'n cael ei drafod?

Mae croeso i aelodau o'r cyhoedd fynychu cyfarfodydd pwyllgorau craffu (pan mae cyfyngiadau COVID-19 yn caniatáu hynny) ond bydd yn rhaid gofyn am ganiatâd y Cadeirydd os ydynt am siarad neu wneud sylwadau mewn cyfarfod pwyllgor. Os hoffech chi gyflwyno tystiolaeth gerbron pwyllgor, neu annerch aelodau ar sail eich profiad mewn perthynas â phwnc dan sylw, cysylltwch â'r Cydlynnydd Craffu ymlaen llaw er mwyn trefnu hyn a dosbarthu unrhyw waith papur i aelodau'r pwyllgor.

Yn achlysurol, gall y pwyllgorau craffu 'gyfethol' unigolyn gyda phrofiad neu arbenigedd penodol i ddod yn aelod dros dro o'r pwyllgor neu ofyn iddynt gyfrannu at ymchwiliad fel tyst arbenigol.

Cael y wybodaeth ddiweddaraf am benderfyniadau pwyllgorau craffu Sir Ddinbych

Gallwch gael y wybodaeth ddiweddaraf am yr hyn sy'n cael ei drafod yng nghyfarfod pob pwyllgor craffu, yn ogystal ag unrhyw gyfarfod cyhoeddus arall y Cyngor, drwy ymweld â'r dudalen 'cyfarfodydd' ar wefan y Cyngor. Mae 'rhaglen waith' ddiweddaraf pob un o'r pwyllgorau craffu ar gael, ynghyd â'r papurau perthnasol ar gyfer pob cyfarfod, a bydd yr agenda sydd wedi'i chadarnhau ar gyfer pob cyfarfod ar gael 5-7 diwrnod cyn dyddiad y cyfarfod fel arfer.

Mae cofnodion y cyfarfodydd craffu blaenorol a chofnod o'r penderfyniadau hefyd ar gael ar wefan y Cyngor.

Gallwch gael rhagor o gyngor neu wybodaeth drwy gysylltu â'r Cydlynnydd Craffu, Rhian Evans rhian.evans@sirddinbych.gov.uk (01824 712554) neu'r Swyddog Gwasanaethau Democrataidd, Karen Evans, karen.a.evans@sirddinbych.gov.uk (01824 712575).

Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Craffu 2020-21

Ffurflen Gais Craffu

A oes unrhyw fater yr hoffech i'r pwyllgorau craffu gael golwg arno?

Rhowch ddisgrifiad byr o'r pwnc yr hoffech i un o'r Pwyllgorau Craffu ei ystyried gan nodi pam rydych yn credu y dylai gael ei ystyried

A fydddech chi'n hoffi mynychu cyfarfod Pwyllgor Craffu?

BYDDWN / NA FYDDWN

Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Craffu 2020-21

Byddai'n ddefnyddiol petaech yn gallu rhoi'r manylion isod i ni er mwyn i ni ally ymateb i'ch cais

Eich enw:

Cyfeiriad:

Cod post:

E-bost:

Rhif ffôn:

Dychwelwch y ffurflen hon at:

Y Cydlynnydd Craffu

Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd

Blwch Post 62

Rhuthun

LL15 9AZ

neu e-bostiwch y ffurflen at democrataidd@sirddinbych.gov.uk